

Diolch am anfon y cwestiynau hyn yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghlynnog Fawr ddydd Sul 12 Gorffennaf. Isod, gweler atebion i'ch cwestiynau:

Pwy fydd yn gyfrifol am y cebl ar ôl iddo gael ei osod, er enghraifft o ran yswiriant pe bai unrhyw beth yn digwydd wrth i dirfeddianwyr fynd i'r afael â gwaith ar eu tir neu pe bai rhywbeth yn digwydd oherwydd y cebl?

National Grid a fydd yn gyfrifol am y ceblau ar ôl iddynt gael eu gosod. Fel prosiect a hyrwyddir gan National Grid, nhw bydd yn gyfrifol am gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer ei asedau ei hun, fel rhan o'r cytundebau tir y gobeithir eu trefnu.

Beth fydd yr effaith ar ffyrdd cefn gwledig bach, oherwydd byddant yn cael eu defnyddio'n amlach gan y bydd pobl yn ceisio osgoi traffig ar y briffordd?

Pan fyddwn yn gwybod beth fydd y llwybrau adeiladu, nifer y cerbydau, a'r amseroedd, bydd yr wybodaeth hon yn helpu i lywio ein gwaith o ran asesu'r effeithiau posibl ar ffyrdd gwledig, gan lywio'r Datganiad Amgylcheddol a'r dogfennau cysylltiedig a fydd yn rhan o'r cais cynllunio.

Pwy fydd yn eu trwsio ac yn eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd?

Bydd y ceblau a'r holl seilwaith a fydd yn rhan o'r prosiect yng Nghymru yn eiddo i National Grid Electricity Transmission, a'r cwmni hwnnw a fydd yn eu cynnal a'u cadw.

Beth fydd yn digwydd os deuir ar draws tir hanesyddol?

Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r prosiect, rydym yn cynnal amrywiaeth o arolygon treftadaeth ddiwylliannol ac yn agor ffosydd archaeolegol er mwyn asesu unrhyw ardaloedd y cynigir adeiladu seilwaith arnynt ac er mwyn canfod unrhyw nodweddion hanesyddol a allai fod yno. Hefyd, rydym yn ymgynghori gydag ymgynghoreion statudol hollbwysig, fel HENEB (sef y cynghorydd cynllunio archaeolegol), ynglŷn â'n cynigion er mwyn cael eu cyngor arbenigol technegol. Bydd unrhyw nodweddion hanesyddol y deuir o hyd iddynt o ganlyniad i waith arolygu'r prosiect, pa un a fyddant wedi'u dynodi ai peidio, yn cael eu cynnwys yn Natganiad Amgylcheddol y prosiect ac mewn dogfennau cysylltiedig eraill. Bydd y dogfennau hyn yn asesu i ba raddau y gallai'r prosiect effeithio ar y nodweddion hanesyddol, a byddant yn cynnwys strategaethau lliniaru a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r nodweddion dan sylw. Bydd y dogfennau hyn ar gael i'r cyhoedd eu gweld pan fyddwn yn cyflwyno ein cais cynllunio terfynol.

A fydd y prosiect yn cael ei ganslo?

Mae National Grid yn parhau i ddatblygu Cyswllt Gorrlewinol 2 ac mae wrthi'n cynnal yr arolygon, yr asesiadau a'r gweithgareddau ymgynghori sy'n angenrheidiol i lywio dyluniad a cheisiadau cynllunio'r prosiect. Fel yn achos pob prosiect seilwaith mawr, gallai ystod o brosesau rheoleiddio, cynllunio a chydysynio ddylanwadu arno, a bydd

penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud gan yr awdurdodau perthnasol ar ôl ystyried y dystiolaeth ac adborth yr ymgynghoriad. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol drwy gydol y broses hon a byddwn yn parhau i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

Beth fydd oes y prosiect?

Mae'r prosiect yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn rhwydwaith trawsyrru trydan y DU. Er y bydd union oes weithredol y prosiect yn ddibynnol ar waith cynnal a chadw, uwchraddiadau, a gofynion y rhwydwaith yn y dyfodol, fel arfer bwriedir i seilwaith trawsyrru mawr o'r fath (h.y. cynllun HVDC) weithredu am 40 mlynedd. Drwy gydol ei oes weithredol, bydd y seilwaith yn cael ei fonitro a'i gynnal a'i gadw'n barhaus, a bydd hefyd yn destun goruchwyliaeth reoleiddiol barhaus, er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i weithredu mewn modd diogel, dibynadwy ac effeithlon. Gan fod yn rhaid i dechnoleg a rhwydweithiau esblygu, efallai hefyd y bydd cydrannau unigol yn cael eu hadnewyddu neu eu hamnewid er mwyn ymestyn oes gyffredinol yr ased.

A fydd angen amnewid y cebl mewn blynyddoedd i ddod?

Efallai y bydd angen amnewid neu adnewyddu rhai agweddau ar system y ceblau a'r seilwaith cysylltiedig dros amser, fel rhan o'r gwaith arferol sy'n gysylltiedig â rheoli a chynnal a chadw asedau. Fel arfer, bwriedir i seilwaith trawsyrru HVDC mawr fod ag oes weithredol o oddeutu 40 mlynedd; er, bydd union oes y seilwaith yn ddibynnol ar waith cynnal a chadw, datblygiadau technolegol, ac anghenion y rhwydwaith yn y dyfodol. Pan fo angen, efallai y bydd cydrannau unigol yn cael eu huwchraddio neu eu hamnewid, gan helpu i gynnal perfformiad y ceblau ac ymestyn eu hoes gyffredinol.

Sut effaith a gaiff y prosiect ar werthoedd tai?

Deallwn fod pobl yn bryderus ynglŷn â'r effaith bosibl a gaiff prosiectau seilwaith ar werthoedd tai. Ar hyn o bryd, mae'n amhosibl rhagweld sut y bydd y prosiect yn effeithio ar dai unigol, oherwydd mae nifer o ffactorau'n dylanwadu ar werthoedd tai.

Fel rhan o'r broses gynllunio, mae'n ofynnol inni lunio asesiad manwl o'r effeithiau amgylcheddol, gweledol a chymunedol pa bryd bynnag y bo modd, ynghyd â chyflwyno mesurau i liniaru'r effeithiau hynny. Rydym yn ceisio adborth trwy gyfrwng y broses ymgynghori er mwyn helpu i lywio datblygiad y prosiect a phennu cyfleoedd i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol.

Dan ddeddfwriaeth bresennol y DU, nid oes yna unrhyw hawl awtomatig i gael iawndal am newidiadau a allai ddod i ran gwerthoedd tai neu newidiadau a allai ddigwydd i'r olygfa yn sgil datblygiadau seilwaith. Ond pe bai hawliau tir neu eiddo yn ofynnol ar gyfer y prosiect, byddai iawndal yn cael ei roi yn unol â'r fframwaith statudol perthnasol. Pe bai effaith uniongyrchol yn dod i ran eiddo yn sgil gofynion tir y prosiect, byddai tîm y prosiect yn ymgysylltu â'r tirfeddianwyr dan sylw yn unigol.

Fel y gwyddoch, efallai, daeth Cam 1 ein hymgyngoriad i ben yn ddiweddar, a bellach rydym wrthi'n adolygu'r holl adborth a gawsom. Mae'r adborth hwn yn bwysig o ran ein helpu i ddatblygu a mireinio'r prosiect. Bydd aelodau'r gymuned leol yn cael cyfle arall i gyflwyno adborth ar ein cynigion diweddaraf y flwyddyn nesaf, yn ystod ail gam yr ymgynghoriad.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn rhannu gyda'r gymuned leol grynoded o'r sylwadau hollbwysig a gawsom yn ystod ein hymgyngoriad Cam 1, ynghyd â'r themâu hollbwysig a daeth i'r amlwg yn yr adborth. Os hoffech gofrestru i gael diweddariadau er mwyn sicrhau y cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, gallwch wneud hynny ar wefan ein prosiect [yma](#).

Rydym wedi ymrwymo i roi'r diweddarafr i'r gymuned ynglŷn â'n cynigion, a byddwn yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

Os oes gennych chi neu aelodau o'r gymuned gwestiynau ychwanegol, gallwch gysylltu drwy ebost at westernlink2@nationalgrid.com, drwy'r post at FREEPOST W LINK 2 neu dros y ffôn ar 0800 156 0706.

Cofion cynnes

Tîm Cysylltiadau Cymunedol

Western Link 2 | Cyswllt Gorllewinol 2